Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant
Ffordd Cefn yr Hendy, Meisgyn, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf. CF72 8TL
01443 237837 admin@ygggllantrisant.rctcbc.cymru
www.yggglantrisant.com

Pennaeth *Head Teacher* **Mr R O'Neil**

Tymor yr Hydref 2024 / *Autumn Term 2024*

Annwyl Rieni / Warcheidwaid,

Gweler, yn atodedig, copi o Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i'r Rhieni. Mae copi o'r adroddiad i'w weld ar wefan yr ysgol yn yr ardal CYMUNED - LLYWODRAETHWYR - ADRODDIADAU'R LLYWODRAETHWYR. Os hoffech dderbyn copi papur o'r adroddiad hwn, cysylltwch â ni yn yr ysgol os gwelwch yn dda.





Cadeirydd y Llywodraethwyr **Pennaeth**

Dear Parents / Guardians,

Please see attached a copy of the 'Governors' Annual Report to Parents'. A copy of the report has been placed on the school Website under COMMUNITY - GOVERNORS - GOVERNORS' REPORTS. Should you wish to receive a paper copy of this report, please contact school.





Chair of Governors *Head Teacher*

Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant

Adroddiad Blynyddol Y Llywodraethwyr i'r Rhieni

The Governors' Annual Report to Parents

Tymor yr Hydref 2024
Autumn Term 2024

Clerc y Corff Llywodraethu

Mrs G Davies,
Cyfarwyddwr Cyfadran Addysg a Chynhwysiant,
Canolfan Menter y Cymoedd,
Parc Hen Lofa'r Navigation,
Abercynon, Rhondda Cynon Taf.
CF45 4SN

Clerk to the Governing Body

Mrs G Davies
Director of Education and Inclusion Services,
Valley's Innovation Centre,
Navigation Park,
Abercynon, Rhondda Cynon Taf.
CF45 4SN

Cadeirydd Y Corff Llywodraethu

Dr K Vickers-Hulse
YGGG Llantrisant
Ffordd Cefn yr Hendy,
Meisgyn,
Pontyclun.
Rhondda Cynon Taf. CF72 8TL
Ffôn: 01443 237837

Chair of the Governing Body

Dr K Vickers-Hulse
YGGG Llantrisant
Ffordd Cefn yr Hendy,
Miskin,
Pontyclun.
Rhondda Cynon Taf. CF72 8TL
Tel: 01443 237837

Ethol Rhiant-Lywodraethwyr

Y tro nesaf y bydd angen ethol Rhiant Lywodraethwr fydd ar Chwefror 21ain , 2026.
Serch hynny, os bydd Rhiant Lywodraethwr yn ymddiswyddo cyn y dyddiad yma, byddwn yn trefnu etholiad arbennig ar yr adeg briodol.

Election of Parent Governors

The next vacancy for Parent Governor will become available on February 21st, 2026.
If, however, a Parent Governor should resign before this time, arrangements will be made to hold an election at the appropriate time.

Adroddiad Ariannol 2023-2024

Atodwn gopi o adroddiad ariannol yr ysgol am y flwyddyn ariannol 2023-2024 (ATODIAD A). Mae modd gwneud cais am esboniad o'r wybodaeth.

Financial Statement 2023-2024

Enclosed, is a copy of the school's financial statement for the 2023-2024 financial year (APPENDIX A). Further breakdown of the information is available upon request.

Manylion ar Faterion Presenoldeb

Presenoldeb yr ysgol yn ystod 2023-2024 oedd 94.55%. Y targed ar gyfer 2024-2025 yw 95%. Mae presenoldeb pob disgybl yn cael ei fonitro'n agos.

Attendance Information

The school attendance was 94.55% for 2023-2024. The target for 2024-2025 is 95%. Attendance of all pupils is closely monitored.

Pennu Targedau

Nodir targedau ar gyfer yr ysgol yn y Cynllun Datblygu Ysgol. Mesurir cynnydd disgyblion unigol ar gyflawniad o fewn camau dilyniant.

Target Setting

Targets for the school are noted in the School Development Plan. Individual pupil progress is measured on achievement within progression steps.

Data Perfformiad yr Ysgol

Mae'r Cwricwlwm Newydd i Gymru yn darparu gwybodaeth am gynnydd i'r disgyblion. Mae disgyblion blynyddoedd 2 i 6 yn dal i sefyll profion cenedlaethol. Mae'r ysgol yn cyflawni ar lefel da.

School Performance Data

The New Curriculum for Wales provides progression information for the pupils. National tests for Years 2 to 6 are still undertaken. The school is performing at a good level.

Disgyblion sy'n Gadael yr Ysgol

Gadawodd 28 o ddisgyblion Blwyddyn 6 ar ddiwedd Tymor yr Haf i symud ymlaen i'r Ysgol Uwchradd.

School Leavers

28 Year 6 pupils left us in the Summer Term to go on to Secondary Education.

Aelodau o'r Corff Llywodraethu / *Members of the Governing Body*

Dyma'r rhai sy'n aelodau o'r Corff Llywodraethu ar hyn o bryd:

The following are current members of the Governing Body:

Enw *Name*	Carfan Llywodraethwr *Category of Governor*	Dyddiad *Ymddeol* *Retirement*
Mr R O'Neil	Pennaeth *Head Teacher*	N/A
Miss S Williams	Staff Addysgu *Teaching Staff*	07.09.28
Mrs S Krieger	Staff Cynorthwyol *Support Staff*	01.12.26
Dr K Vickers-Hulse	Cymuned *Community*	07.03.26
Dr L Roberts	Cymuned *Community*	19.11.27
Mr H Rees	Cymuned *Community*	13.11.28
Mrs A Lloyd	Rhiant *Parent*	21.02.26
Mrs H Holton	Rhiant *Parent*	25.10.27
Mrs J Morgan	Rhiant *Parent*	25.10.27
Mrs G Hughes	Rhiant *Parent*	25.10.27
Cllr. S Owen	Awdurdod Llai *Minor Authority*	13.11.28
Mrs C Willis	Awdurdod Lleol *Local Authority*	23.04.25
Cllr. P Binning	Awdurdod Lleol *Local Authority*	19.11.27
Dr M Gajraj	Awdurdod Lleol *Local Authority*	19.11.27

Pan fydd yn gyflawn, dyma nifer yr aelodau ar gyfer pob carfan:

- 3 Chynrychiolydd yr Awdurdod Lleol
- 3 Chynrychiolydd y Gymuned
- 4 Rhiant Lywodraethwr
- 1 Cynrychiolydd y Staff Cynorthwyol
- 1 Cynrychiolydd y Staff Addysgu
- 1 Pennaeth
- 1 Awdurdod Llai

Cyfanswm = 14

When fully constituted, this governing body is made up as follows :

- *3 L.A. Representatives*
- *3 Community Governors*
- *4 Parent Governors*
- *1 Minor Authority Representative*
- *1 Teacher Representative*
- *1 Support Staff Representative*
- *1 Head Teacher*

Total = 14

Cynllun Gweithredu Ôl-Arolygiad / *Post Inspection Action Plan*

Y Llywodraethwyr fydd yn gyfrifol am lunio Cynllun Gweithredu ar gyfer mynd i'r afael â materion allweddol y tynnodd yr arolygwyr ein sylw atyn nhw yn dilyn yr arolwg allanol fis Medi 2018. Cafodd rhieni gopi o grynodeb o'r adroddiad a gynhyrchwyd gan yr arolygwyr gyda chopi llawn ar gael yn electronig. Mae'r Llywodraethwyr yn monitro cynnydd y cynllun yn eu cyfarfodydd tymhorol.

Governors are responsible for drawing up an Action Plan to address any key issues raised by Inspectors during the external Inspection of the School in September 2018. Parents were provided with a paper copy of the summary report produced by the Inspectors with a full electronic version made available and on request. Governors monitor the progress of the plan at their termly meetings.

Dyddiadau'r Tymhorau ac Amserau'r Ysgol *Term Dates and Session Times*

Isod, gweler copi o'r tymhorau a'r gwyliau ar gyfer y flwyddyn academaidd 2024-2025. Fe fydd pob ysgol ar gau ar Ŵyl y Banc Calan Mai, dydd Llun 5ed o Fai 2025. Bydd yr ysgol hefyd ar gau ar gyfer diwrnodau Hyfforddiant Mewn Swydd (HMS) ar 02.09.24, 21.10.24, 06.01.25, 28.04.25 a 21.07.25 gydag un dyddiad arall i'w gadarnhau. Fe all Llywodraeth Cynulliad Cymru benderfynu dyrannu diwrnodau HMS ychwanegol, bydd yr ysgolion yn cael gwybod am hyn pan mae'n wybyddus. Os bydd rhaid cau'r ysgol ar gyfer cynnal etholiadau, rhaid unioni'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn academaidd.

A copy of the terms and holiday dates for the 2024-2025 academic year is as listed below. All schools will be closed on May Day Bank Holiday, Monday 5th May 2025. School will also be closed for INSET days on 02.09.24, 21.10.24, 06.01.25, 28.04.25 and 21.07.25 with one further date to be arranged. The Welsh Government may decide to allocate additional INSET days - schools will be informed of these at the appropriate time. Any closure(s) for election purposes are to be balanced during the academic year.

Meithrin i Flwyddyn 2 *Nursery to Year 2*		**Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6** *Year 3 to Year 6*	
Bore *Morning*	**9:00 – 12:00**	**Bore** *Morning*	*9:00 – 12:15*
Cinio *Lunchtime*	**12:00 – 1:15**	**Cinio** *Lunchtime*	*12:15 – 1:15*
Prynhawn *Afternoon*	**1:15 – 3:30**	**Prynhawn** *Afternoon*	*1:15 – 3:30*

Ar ddiwedd y dydd, caniateir i'r plant hynny sy'n cerdded adref adael y safle yn gyntaf. Gofynnir i Rieni a Gwarcheidwaid adael y safle'n brydlon er mwyn i'r bysiau gael eu rhyddhau. Os bydd unrhyw riant yn dymuno mynd â phlentyn / plant adref yn gynnar, gofynnwn yn garedig iddynt anfon llythyr o eglurhad neu ffonio'r ysgol cyn 2:30 y.p. os gwelwch yn dda. Os bydd rhiant yn dymuno i'w blentyn / blant gerdded adref o'r ysgol heb oedolyn, rhaid hysbysu'r ysgol o'r bwriad trwy gwbhlhau'r ffurflen berthnasol a geir ar wefan yr ysgol. Os bydd rhiant yn dymuno i'w blentyn / blant gerdded adref wedi iddo(i) deithio ar fws ysgol, rhaid trefnu hyn gyda'r cwmni trafnidiaeth a'r Awdurdod Lleol. Nid yw'n bosibl i'r ysgol ganiatau hyn.

Usually, pupils who walk to and from school will leave first at the end of the school day. Parents and Carers are kindly asked to leave the school site promptly so that the buses may be released. Parents wishing to take pupils out of school early are kindly requested to inform the school by letter or telephone call no later than 2:30 p.m. please, stating the reason. Should any parent request that their child / children walk home from school unattended, this must be pre-arranged with the school and the relevant permission form be completed on the school website. Should parents request that their child / children walk home after having travelled on school transport, this must be pre-arranged with the transport company and Local Authority. School is unable to authorise this.

Gwyliau Ysgol 2024-2025 *School Holidays 2024-2025*

	Dechrau *Start*	**Hanner Tymor** *Half Term*	**Gorffen** *Finish*
Tymor yr Hydref *Autumn Term*	**02.09.24**	**28.10.24 - 01.11.24**	**20.12.24**
Tymor y Gwanwyn *Spring Term*	**06.01.25**	**24.02.25 - 28.02.25**	**11.04.25**
Tymor yr Haf *Summer Term*	**28.04.25**	**26.05.25 - 30.05.25**	**21.07.25**

HMS *INSET*	**02.09.24**	**21.10.24**	**06.01.25**	**28.04.25**	**21.07.25**	**+1 i'w drefnu** *+1 to arrange*

Yr Ysgol a'r Gymuned

Mae ysgol sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn un sy'n darparu ystod o weithgareddau a gwasanaethau, yn aml y tu hwnt i oriau'r ysgol, yn aml er mwyn cyflawni anghenion ei disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach. Ledled Cymru mae nifer o ysgolion eisoes yn darparu gwasanaethau cymunedol gan gynnwys addysg i oedolion, cefnogaeth astudio, cyfleusterau TGCh a rhaglenni chwaraeon cymunedol. Nid prosiect tymor byr yw datblygiad y cysylltiad rhwng ysgolion a'r gymuned, ond cyfle gwirioneddol i ysgolion a chymunedau i gydweithio mewn ffyrdd newydd er budd plant, pobl ifanc ac oedolion.

Mae gennym gyfleusterau cymunedol sy'n cynnig gofal cyn ac ar ôl ysgol. Cynigir ystod o weithgareddau allgyrsiol ar y safle sy'n cynnwys sgiliau pêl-droed, rygbi, criced a phêl-rwyd, ymarferion Corawl ac Aelwyd yr Urdd. Cynhelir dosbarthiadau Cymraeg i oedolion ar y safle. Fel arfer, daw Swyddog Cyswllt Ysgolion Heddlu De Cymru atom yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn i drafod a chynnal gwersi gydag holl ddisgyblion yr ysgol. Mae cysylltiadau agos gyda ni hefyd â'r Heddlu lleol a byddant yn ymweld â'r ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol i fonitro trafnidiaeth a'r sefyllfa parcio y tu allan i'r ysgol yn achlysurol.

Community Focused Schools

A community focused school is one that: 'provides a range of services and activities', often beyond the school day, to help meet the needs of its pupils, their families, and the wider community. Across Wales, many schools already provide some community services including adult education, study support, ICT facilities and community sports programmes. The development of community-focused schools is not just a short-term project or initiative, but a real opportunity for schools and communities to work together in new ways for the future benefit of children, young people and adults.

At our school we have community facilities which offer before and after school childcare for working parents. Staff at school usually offer a range of extra-curricular activities on site including football, rugby, cricket and netball skills, choir rehearsals and Urdd club. Our South Wales Police School Liaison Officer visits us on a regular basis to discuss with the pupils and hold sessions with all our pupils. We also have strong links with the local Police who occasionally visit school at the beginning and end of the school day to monitor traffic flow and parking outside the school.

Prosbectws yr Ysgol

Adolygir Prosbectws yr Ysgol yn flynyddol i gynnwys unrhyw newidiadau mae Llywodraeth Cymru neu gyrff perthynol eraill yn eu mynnu. Newidiadau i'r prosbectws eleni yw rhestr staffio newydd, diweddariad i drefniadau cwricwlwm yr ysgol, newidiadau i ddarparwyr clybiau ar ôl ysgol a dyddiadau gwyliau'r flwyddyn academaidd newydd. Fel arfer, byddwn yn cyflwyno copi o'r prosbectws i rieni'r plant hynny sy'n dechrau yn yr ysgol am y tro cyntaf. Ceir copi o Brosbectws yr Ysgol ar wefan yr ysgol. Mae pob rhiant newydd yn derbyn copi o 'Lawlyfr yr Adran Feithrin' sy'n cynnwys gwybodaeth sydd yn berthnasol i'r plant bach newydd. Mae rhieni yn cael gwybod pan fydd unrhyw newidiadau yn y prosbectws cyfredol.

Gallwch e-bostio'r ysgol â chroeso. Mae cyfeiriad e-bost a chyfeiriad gwefan yr ysgol fel a ganlyn:

School Prospectus

The School Prospectus is updated annually to include any changes required by the Welsh Government or other related bodies. Changes made this year amount to an updated staffing list, an update to the school's curriculum arrangements, changes to after school club providers and updated school holiday dates. A copy of the Prospectus is generally made available to parents whose children are starting school for the first time. A copy of the Prospectus can be found on the school's website. New parents also receive a copy of the school's 'Nursery Class Handbook' which contains all the information relevant to the new pupils. Parents are informed when amendments are made to the existing prospectus.

Any parents wishing to e-mail us at school can do so. The school e-mail and school website address are as follows:

admin@yggllantrisant.rctcbc.cymru **www.yggllantrisant.com**

Adolygu Polisïau'r Ysgol

Mae'r ysgol wedi paratoi nifer o ddogfennau polisi sy'n trafod meysydd y cwricwlwm ac agweddau eraill ar fywyd yr ysgol. Mae'r staff / llywodraethwyr yn adolygu'r rhain yn barhaus ac yn eu diweddaru ar gyfer cynnwys datblygiadau a gofynion deddfau newydd. Mae manylion ychwanegol gan y Pennaeth neu Glerc yr Ysgol. Yn ystod Tymor yr Hydref 2024 adolygwyd y polisïau isod:

- **Rheoli Perfformiad**
- **Cwynion Staff**
- **Ymddygiad Afresymol**
- **Diogelu**
- **Cwynion**

Review of School Policies

The school has many Policy documents covering both curriculum and non-subject areas. These are reviewed and revised by staff and governors on an annual basis to incorporate changing trends and legislation. Further information is available by contacting the Head Teacher or School Clerk. During the Autumn Term 2024 the policies noted below were reviewed:

- *Performance Management*
- *Staff Grievances*
- *Unreasonable Behaviour*
- *Safeguarding*
- *Complaints*

Ysgol sy'n Tyfu

Medi'r 1af 2024, bu 207 o ddisgyblion ar gyfer y flwyddyn academaidd. I sicrhau lle i'r disgyblion hyn, ail-drefnwyd holl ddosbarthiadau'r ysgol ar ddiwedd 2023-2024. Mae dau ddosbarth eleni yn cynnwys dau oedran neu oedrannau 'cymysg' o ddisgyblion er mwyn sicrhau ein bod yn cyd-fynd â gofynion Llywodraeth Cymru. Hysbyswyd rhieni ynghylch dosbarthiadau y flwyddyn academaidd 2024-2025, y sefyllfa staffio ac ati ynghyd â'r Adroddiad Cynnydd Blynyddol fis Gorffennaf 2024. Noder cynlluniwyd yr ysgol ar gyfer 1.5 o ddosbarthiadau i ddechrau bob blwyddyn.

Growing School

As of September 1st, 2024, the number of pupils on roll was 207. To accommodate all pupils, class structures were reorganised in line with school policy at the end of 2023-2024. Inevitably, and as is usual, two classes contain two age groups or pupils of 'mixed' ages this year in order that we fully conform to Welsh Government requirements. Further information regarding the 2024-2025 academic year's classes and staffing details was forwarded to parents along with the Annual Progress Report during July 2024. Please note that the school was designed for 1.5 form entry.

Cyfansoddiad yr Adeilad a'r Cyfleusterau Toiled

Agorwyd yr ysgol yn swyddogol, yn yr adeilad presennol, ar Orffennaf 11eg 2005. Mae'n parhau i fod mewn cyflwr da ac wedi'i chynnal i safon uchel. Mae'r awyrgylch dysgu i'r disgyblion yn ddiogel, croesawgar, symbylus a glân gyda phob disgybl â mynediad i gyfleusterau toiled wedi'u cadw a'u cynnal i safon dda. Ceir cyfleusterau ymolchi cyfagos gan y disgyblion neu yn rhannu cyfleusterau sy'n agos i'w hystafelloedd dosbarth. Lleolir cyfleusterau tai bach eraill wrth ochr neuadd yr ysgol gydag un arall y tu mewn i'r Ystafell Gymunedol. Mae'r cyfleusterau hyn yn cael eu monitro yn ystod y dydd ac yn cael eu glanhau'n ddyddiol i safon uchel gan ein staff glanhau a gofalu.

Fabric of the Building and Toilet Facilities

The school, in its present building, was officially opened on July 11th, 2005. It continues to be in a sound and well-maintained condition. The learning environment for our pupils is safe, welcoming, stimulating and clean with all pupils receiving access to appropriately well-maintained toilet facilities. Pupils have washroom facilities which adjoin their classrooms or have shared facilities situated in close proximity to their classrooms. Washroom facilities are also located adjacent to the school hall and in the Community Room. All washroom facilities are regularly monitored and cleaned daily to a high standard by our Cleaning and Caretaking staff.

Bwyta'n Iach

Mae polisïau a chynlluniau gwaith yr ysgol yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Annogir y disgbylion i fwyta ffrwythau ac yfed dŵr amseroedd egwyl ac amser cinio. Yn ogystal, addysgir y plant am y pwysigrwydd o ddiet cytbwys sy'n cynnwys llysiau a ffrwythau i godi ymwybyddiaeth o fwydydd iachus.

Healthy Eating

The school's policies and schemes of work promote healthy eating and drinking. The pupils are encouraged to eat fruit and drink water at break times and lunchtimes. In addition, the children are taught about the importance of a balanced diet which includes fruit and vegetables to raise the awareness of healthy foods.

Mynediad i Ddisgyblion Anabl

Mae'r Corff Llywodraethu yn effro i ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 a Gorchymyn Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 wrth lunio Cynllun Datblygu'r Ysgol / Cynllun Gweithredu Ôl-arolwg, a gweithrediad dyddiol y safle.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gallu manteisio ar gwricwlwm yr ysgol a gweithgareddau megis clybiau ar ôl ysgol, digwyddiadau chwaraeon/hamdden ac ymweliadau addysgiadol (os ydyn nhw'n dymuno). Mae pob agwedd ar fynediad, gan gynnwys mynediad i wybodaeth ysgrifenedig, wedi eu cynnwys yn y broses gynllunio.

Mae gan y Sir Gynllun Strategaeth Hygyrchedd ac mae archwiliad wedi ei wneud o safle'r ysgol yn unol â'r strategaeth yma, fel rhan o friff yr Awdurdod, i nodi unrhyw rwystrau posib a gwella mynediad i'r ysgol.

Access for Disabled Pupils

The Governing Body is mindful of the requirements of the Equality Act 2010 and the Special Needs and Disability Act (SENDA) 2001 in drawing up the School Development Plan/Post Inspection Action Plan, and the day-to-day operation of the whole site.

The school is committed to ensuring that all pupils are able to participate in the school curriculum and (where they desire) in activities such as after school clubs, leisure/sporting events and educational visits. All aspects of accessibility, including access to written information are included in the planning process.

The Authority has in place an Accessibility Strategy Plan and in line with this strategy has had an audit of the school site undertaken, as part of an Authority wide brief, to identify any potential barriers and to improve the access to the school.

Trefniadau Derbyn Disgyblion a Throsgwlyddo

Y Cyngor Bwrdeistref Sirol yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer pob ysgol (ar wahân i ysgolion yr Eglwys lle mai Corff Llywodraethu'r ysgol yw'r awdurdod derbyniadau) o fewn ffiniau'r Awdurdod. Mae trefniadau derbyn, felly, yn cael eu gweithredu'n unol â pholisi'r Awdurdod ar dderbyniadau ysgol sy'n gynwysedig yn y llyfryn Dechrau'r Ysgol. Caiff rhieni gopi o'r llyfryn ar ôl llenwi cais am le yn yr ysgol i'w plentyn. Gellir gweld cynnwys y llyfryn hwn ar-lein hefyd ar wefan yr Awdurdod. Bydd disgyblion fel arfer yn aros yn yr ysgol hyd nes iddynt gwblhau blwyddyn chwech ac yna symud i'r ysgol uwchradd. Mae'r ysgol hon yn ysgol fwydo ar gyfer Ysgol Llanhari, fodd bynnag, fe all disgyblion ymgeisio i fynychu unrhyw ysgol uwchradd o'u dewis yn unol â chydymffurfiaeth gyda pholisi mynediad yr Awdurdod.

Admission / Transition Arrangements

The County Borough Council is the Admissions Authority for all schools (other than Church schools where the school's Governing Body is the admissions authority) within the Authority's boundary. The school's admission arrangements are, therefore, operated in line with the Authority's policy on school admissions which is contained in the 'Starting School' booklet. The booklet is made available to parents at the point of their application for their child's admission to school. The contents of this booklet can also be accessed online on the Authority's website. Pupils will usually remain in the school until they complete year six and then transfer to secondary school. This school is a feeder school for Ysgol Llanhari (secondary school). However, pupils may apply to attend any secondary school they choose subject to compliance with the Authority's Admissions Policy.

Cynllun Datblygu'r Ysgol

Y Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am lunio Cynllun Datblygu'r Ysgol (ar y cyd â'r staff). Mae'r cynllun yn nodi'r cyfeiriad y bydd yr ysgol yn ei ddilyn, dros gyfnod o dair blynedd, wrth ddarparu'r cwricwlwm. Caiff y cynllun ei fonitro a'i adolygu'n gyson er mwyn ystyried y cynnydd sydd wedi'i wneud ac unrhyw newidiadau i ofynion y cwricwlwm. Mae Cynllun Datblygu'r Ysgol eleni wedi cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Llywodraethwyr ac ar hyn o bryd yn cael ei weithredu gan y staff. Mae'r targedau yn cynnwys amcanion y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Caiff targedau eu hadolygu'n gyson gan y Corff Llywodraethu.

School Development Plan

Governors are responsible for drawing up (in conjunction with staff) the School Development Plan. The plan identifies the direction the school will take, over a three-year period, in delivering the curriculum. The plan is regularly monitored and revised to take account of progress made and any changes to curriculum requirements. This year's School Development Plan was approved by Governors and is currently being implemented by the staff. The targets set include short, medium and long-term aims. Targets are regularly reviewed by the Governing Body.

Gweithgaredd 1 *Activity 1*	**CWRICWLWM** **i) Rhifedd a Mathemateg** **ii) Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu** **iii) Y Celfyddydau Mynegiannol**	*CURRICULUM* *i) Numeracy and Mathematics* *ii) Languages, Literacy and Communication* *iii) The Creative Arts*
Gweithgaredd 2 *Activity 2*	**SAFONAU** **i) Gweithdrefnau Monitro, Cynnydd Disgyblion a Thracio - Cyflawniad, Cyrhaeddiad a Chynnydd** **ii) Dysgu ac Addysgu - Safonau a Dyheadau Uchel - Tegwch a Rhagoriaeth i bawb** **iii) Rheoli Perfformiad**	*STANDARDS* *i)* Monitoring Procedures, Pupil Progress and Tracking - Achievement, Attainment and Progress *ii) Learning and Teaching - High standards and Aspirations - Equity and Excellence for all* *iii) Performance Management*
Gweithgaredd 3 *Activity 3*	**YSGOLION YN Y GYMUNED** **Cysylltiadau â'r gymuned, Marchnata a Hyrwyddo**	*COMMUNITY FOCUSED SCHOOLS* *Community engagement, Marketing and Promotion*

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae crynodeb o Bolisi'r Ysgol ar gyfer Asesu a Darparu ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol fel a ganlyn:

Mae polisi'r ysgol ar gyfer nodi, asesu a darparu ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gyson â gofynion Côd Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (a gafodd ei gymeradwyo gan Senedd Cymru ar 23ain Mawrth 2021) o dan Adran 4 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Mae Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr Ysgol yn cydweithio'n agos â'r holl aelodau eraill o staff i sicrhau bod cynlluniau addysg unigol yn cael eu datblygu a'u gweithredu er mwyn diwallu anghenion y disgyblion, a hynny'n addas i'r rheiny sydd eu hangen.

Mae'r Cydlynydd hefyd yn cysylltu â'r holl aelodau o staff i sicrhau bod cynnydd pob disgybl yn cael ei fonitro a'i asesu'n rheolaidd a bod y disgyblion yn cyrraedd eu potensial.

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2024-2025, derbyniodd 3 disgybl Gynllun Datblygu Unigol (CDU).

Additional Learning Needs

The School's Policy for the Assessment of and Provision for pupils with additional learning needs is summarised as follows:

The school's policy for the identification, assessment and provision for pupils with Additional Learning Needs is consistent with the requirements of the Additional Learning Needs Code for Wales (approved by the Senedd on 23rd March 2021) under section 4 of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018.

The School's Additional Learning Needs Co-ordinator (ALNCo) works closely with all other members of school staff to ensure that individual educational plans are developed and implemented to meet the needs of pupils, appropriate in content to those who require them.

The ALNCo also liaises with all members of staff, to ensure that the progress of all pupils is regularly monitored and assessed and to ensure that each pupil reaches his or her potential.

During the academic year 2024-2025, 3 pupils were in receipt of an Individual Development Plan (IDP).

Cwricwlwm A Threfniadaeth

Ysgol Gymraeg yw ein hysgol ni a disgwylir i bob disgybl ac aelod o staff ddefnyddio'r iaith trwy'r dydd, bob dydd. Defnyddir ystod o ddulliau addysgu sy'n cymryd i ystyriaeth y Maes dan sylw, anghenion unigol, diddordebau a thalentau arbennig y disgyblion. Yn Ngham Cynnydd 1, dysgu trwy brofiadau ymarferol fydd y disgyblion. Yng Ngham Cynnydd 2, mae'r addysgu yn gyfuniad o brofiadau ymarferol ynghyd â dysgu ac addysgu mwy ffurfiol ac erbyn Cam Cynnydd 3 addysgir yn fwy ffurfiol ar y cyfan. Ar draws yr ysgol ceir sesiynau i ddysgu y sgiliau Iaith a Maths yn y boreau a gwaith thematig o dan y 6 Maes Dysgu a Phrofiad bob prynhawn. Yn dibynnu ar natur y dasg/ gweithgaredd, caiff y disgyblion eu grwpio o fewn dosbarthiadau mewn nifer o ffyrdd yn ôl y galw. Gall yr athro/athrawes newid y grwpiau ar gyfer rhai gweithgareddau i sicrhau bod yr unigolyn yn gwneud ei orau glas ar bob achlysur. Ar draws yr ysgol, datblygir sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol ar draws y cwricwlwm trwy ddilyn y fframweithiau perthnasol. Y Pedwar Diben sydd wrth wraidd ein cwricwlwm a dyma yw ein dyhead ar gyfer pob disgybl.

Curriculum and Organisation

Our school is a Welsh medium school and all pupils and staff members are expected to use the language in their daily routines all day, every day. The Curriculum is delivered using a variety of teaching methods best suited to the subject, the individual needs, interests and ability of the children. In Progression Step 1, children are taught through practical experiences. In Progression Step 2, the teaching is a mixture of practical and more formal activities and by Progression Step 3, the teaching style is generally more formal. Across the school, Maths and Language skills are taught in morning sessions and thematic work following the 6 Areas of Learning and Experience in the afternoons. Depending on the nature of the task / activity, pupils are grouped and taught in a number of ways. The teacher may change these groups for certain activities to ensure the pupils work at their best at all times. Across the school, literacy, numeracy and digital competency skills are developed cross-curricularly by following the relevant frameworks. The Four Purposes are at the heart of our curriculum and this is our aspiration for all of our learners.

Y Tri Chyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd			*The Three Cross-curricular Responsibilities*		
Llythrennedd	**Rhifedd**	**Cymhwysedd Digidol**	*Literacy*	*Numeracy*	*Digital Competency*

Y Chwe Maes Dysgu a Phrofiad	*The Six Areas of Learning and Experience*
Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu	*Languages, Literacy and Communication*
Mathemateg a Rhifedd	*Mathematics and Numeracy*
Gwyddoniaeth a Technoleg	*Science and Technology*
Y Dyniaethau	*The Humanities*
Y Celfyddydau Mynegiannol	*The Creative Arts*
Iechyd a Lles	*Health and Wellbeing*

Y Pedwar Diben *The Four Purposes*

Dibenion y cwricwlwm yng Nghymru yw ceisio sicrhau bod plant a phobl ifanc yn datblygu:

- **yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;**
- **yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;**
- **yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd;**
- **yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.**

Dewch o hyd i ragor o wybodaeth am gwricwlwm yr ysgol fan hyn.

The purposes of the curriculum in Wales should be that children and young people develop as:

- *ambitious, capable learners, ready to learn throughout their lives;*
- *enterprising, creative contributors, ready to play a full part in life and work;*
- *ethical, informed citizens of Wales and the wider world;*
- *healthy, confident individuals, ready to lead fulfilling lives as valued members of society.*

Further information regarding the school's curriculum can be found here.

DATGANIAD CYLLIDOL ANSWYDDOGOL AM Y FLWYDDYN 2023-2024
PROVISIONAL FINANCIAL STATEMENT FOR 2023-2024

	GWARIANT *TOTAL SPENT*
COSTAU GWEITHWYR *EMPLOYEE COSTS*	
ATHRAWON (GAN GYNNWYS PENNAETH / CYFLENWI / CYMORTH IAITH) *TEACHERS (INCLUDING HEAD TEACHER / SUPPLY / LANGUAGE SUPPORT)*	**921,459**
YN YMWNEUD AG ADEILADAU *PREMISES RELATED*	
YN CYNNWYS: YNNI, ATGYWEIRIO, GLANHAU, CLG MATERION ADEILADU *INCLUDES ENERGY: REPAIRS, CLEANING, BUILDING RELATED SLAs*	**133,170**
TRAFNIDIAETH TRANSPORT	
YN CYNNWYS: YSWIRIANT, PETROL, HAWLIAU TEITHIO *INCLUDES: INURANCE, PETROL, TRAVEL CLAIMS*	**0**
CYFLENWADAU A GWASANAETHAU *SUPPLIES AND SERVICES*	
YN CYNNWYS: CAPITATION, TGCh, CYRSIAU, LLUNGOPÏO, YSWIRIANT STAFF, CLG GWASANAETH *INCLUDES: CAPITATION, ICT, COURSES, PHOTOCOPYING, STAFF INSURANCE AND SERVICE SLAs*	**78,061**
GRANTIAU *GRANTS*	
GDA, GAD, GADBC, GADPDG *EIG, PDG, EYPDG, PDGCLA*	**80,190**
INCWM YCHWANEGOL *ADDITIONAL INCOME*	
INCLUDES: WELSH GOVERNMENT GRANTS, MISCELLANEOUS, STAFF INSURANCE CLAIMS *YN CYNNWYS: GRANTIAU LLYWODRAETH CYMRU, AMRYWIOL, HAWLIAU YSWIRIANT STAFF*	**72,694**